


### TRAETH TYWODLYD

Cynefin traeth tywodlyd yw lle mae'r tir yn cwrdd â'r môr. Mae'n gynefin sy'n ffisegol lym. Mae llanw a thrai'r môr a gweithgarwch y tonnau a'r cerhyntau'n cadw'r dŵr yn symud yn barhaus sydd, yn ei dro, yn symud y tywod oddi tano.  Mae anifeiliaid arbennig yn byw yn y cynefin cynhyrfus hwn. Mae'r gallu i symud yn gyflym ac aros yn uwch na llinell y dŵr neu i dyrchu yn y tywod yn hanfod cyffredin ymysg anifeiliaid traethau. Cynefin lle gallant nofio, tyrchu neu gael eu hysgubo ymaith ydyw. Mae'r rhan fwyaf o anifeiliaid traethau yn dibynnu ar falurion organig, o'r enw detritws, sy'n cael eu tyfu mewn cynefinoedd eraill.  Mae'r traeth tywodlyd yn ardal ddyddodi bwysig nid yn unig i bentyrrau o wymon a phlanhigion eraill, ond i bopeth sy'n arnofio ar yr arwyneb - broc môr. Gall plastig a sbwriel ar y traeth gael eu camgymryd am fwyd gan adar. Mae olew o ollyngiadau a llygredd cronig yn cael eu golchi i draethau tywodlyd gan orchuddio'r gronynnau tywod a'r anifeiliaid. Gall cemegau gwenwynig olew ladd llawer o anifeiliaid a gallai lygru'r traeth tywodlyd am lawer o flynyddoedd.






### Y DRAETHLIN

Mae'r draethlin yn ardal ar ben y lan lle caiff gwrthrychau naturiol a neu wnaed gan ddyn eu golchi gan y llanw, yn enwedig ar ôl stormydd. Gall y draethlin ddweud wrthym sawl peth am fywyd ger y lan.  Gall roi cliwiau i ni am yr anifeiliaid sy'n byw yno, sut olwg sydd ganddynt, y mathau o wyau maent yn eu dodwy ac weithiau hyd yn oed sut buont farw.
Mae'n rhaid bod anifeiliaid sy'n byw yma wedi ymaddasu'n dda i'r ardal hon oherwydd efallai eu bod allan o'r dŵr am y rhan fwyaf o'r dydd!  Mae'n rhaid iddynt ymdopi â thymereddau dŵr eithafol a brwydro â pheryglon sychu neu weithiau cael eu gwlychu'n sylweddol gan stormydd glaw.

Cynefinoedd - Coetir Glan y Môr Gerddi Pyllau ac Afonydd
Addasiad
Anifeiliaid a Phlanhigion
Cadwyni Bwyd
Yr Amgylchedd
Effaith Negyddol
Gwelliant


# BYWYD AR LAN Y MOR

## BLER YDYM YN BYW



### CYNEFINOEDD GLAN Y MOR

Mae cyfoeth o gynefinoedd ar gael ar lan y môr. Yma, dewch o hyd i sawl creadur gwahanol sy'n byw'n agos at y môr neu yn y môr. Mae'r daflen hon yn sôn am sawl creadur diddorol a hudolus a lle maent yn byw.  Os ydych yn treulio ychydig o amser yn edrych yn fanwl ar hyd eich arfordir lleol, gallwch hefyd weld creaduriaid yn eu cartrefi!



# Sawl Lle Gwahanol i Fyw





### Y Pwll Trai

*Mae pyllau trai yn cynnig cyfleoedd gwell i anifeiliaid a phlanhigion y mae'n rhaid iddynt gael eu trochi trwy'r amser. Mae pyllau trai dwfn yn rhoi cysgod rhag tonnau, gan alluogi i organebau bregus fyw ar lannau creigiog a fyddai'n agored i'r elfennau fel arall.*



### Ochr y Clogwyn

Gall clogwyni gael eu dosbarthu'n fras yn 'glogwyni caled' ac yn 'glogwyni meddal'. Mae clogwyni caled yn fertigol neu ar lethr serth; ni allant gynnal ond ychydig o blanhigion uwch ar ysgafelloedd ac agennau. Maent yn dueddol o gael eu ffurfio o greigiau sy'n gallu gwrthsefyll y tywydd, megis gwenithfaen, tywodfaen a chalchfaen, ond gallant hefyd gael eu ffurfio o greigiau mwy meddal, megis sialc.

Mae creigiau 'meddal' yn cael eu ffurfio mewn creigiau llai gwydn dda megis sialau. Maent yn aml yn ffurfio llethrau llai serth ac felly maent yn gynefinoedd gwell i blanhigion. Mae clogwyni meddal yn cynnwys safleoedd bridio pwysig ar gyfer gwenoliaid y glennydd ac anifeiliaid di-asgwrn-cefn oherwydd eu bod yn darparu cyfres o amodau na ddeuir o hyd iddi mewn cynefinoedd eraill. Mae'r creaduriaid hyn yn cynnwys chwilod y llawr, gwiddon a chwilod y traeth.

Mae clogwyni glan y môr yn aml yn lleoedd pwysig ar gyfer poblogaethau o adar y môr. Mae llawer o adar yn nythu mewn cytrefi yn bell o afael ysglyfaethwyr.


### Y Twyni Tywod

Weithiau, deuir o hyd i dwyni tywod ar ben traethau, uwchben llinell y penllanw, ond nid oes gan bob traeth dwyni. Mae'r tywod sy'n cael ei chwythu'n araf yn ffurfio bryniau wrth iddo chwythu yn erbyn rhywbeth megis llwyni, broc neu graig.

Wrth i'r tywod chwythu, mae'r twyn tywod yn tyfu'n fwy. Gall twyni tywod fod yn ecosystemau pwysig sy'n cynnal bywyd planhigion unigryw a phoblogaethau iach o anifeiliaid a thrychfilod.

Mae'r twyn tywod mewn perygl parhaus o gael ei erydu gan y gwynt, y dŵr a hyd yn oed anifeiliaid yn ei groesi.





© Hawlfraint y Goron. Cedwir pob hawl.
Rhif Trwydded: 100023392 - 2009